



## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Os nad ydych yn siŵr p'un a oes angen **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** (CRIA) ai peidio, trowch at Adran 7 o'r [Cynllun Hawliau Plant](#).

Os ydych yn dal i fod yn ansicr, y peth gorau i'w wneud yw cynnal asesiad rhag ofn. Gall y Tîm Gweithredu Mesurau roi canllawiau a chynghor ichi o ran pryd y mae angen cynnal asesiad: [CRIA@wales.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@wales.gsi.gov.uk). Hefyd, mae cynghor a gwybodaeth bellach i'ch helpu i wneud asesiad ar gael ar [dudalennau CRIA ar y fewnwyd](#).

Os bydd angen **asesiad**, dylech lenwi'r templed isod gymaint â phosib. Dylech wybod y canlynol:

- Ar ôl ei gwblhau, gellid defnyddio'r CRIA fel tystiolaeth bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus o dan Adran 1 o [Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011](#).
- Yn unol ag ymrwymiad y Gweinidogion i gyhoeddi **Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**, mae gofyn iddynt eu cyhoeddi neu sicrhau eu bod ar gael ar gais drwy gylchlythyr CRIA Llywodraeth Cymru (gweler tudalen 2).
- Ar ôl eu cwblhau, bydd yr asesiadau'n gyhoeddus ac ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth.
- Ar ôl ei gwblhau, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfeirio at CRIA wrth graffu ar gydymffurfiaeth Gweinidogion â'r ddyletswydd yn Adran 1 (uchod).

**Cofiwch mai proses yw CRIA. Cyn cwblhau'r templed hwn, efallai yr hoffech gael sgwrs gyda'ch tîm am y canlynol:**

- Pwy ddylai fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r CRIA;
- Beth ddylid ei gynnwys yn y CRIA; a
- Dechrau llenwi'r templed hwn cyn gynted â phosib.

**Efallai yr hoffech gwblhau'r CRIA dros gyfnod o amser, gan ddod yn ôl ato ac ystyried ac ailystyried materion wrth i dystiolaeth ddod i law a/neu pan fydd cynnig yn newid.**

Efallai yr hoffech groesgyfeirio'ch asesiad ag asesiadau eraill. Gofynnwch i'r Tîm Gweithredu Mesurau am enghreifftiau: [CRIA@wales.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@wales.gsi.gov.uk)

Ar ôl ei gwblhau, dylid cadw'r CRIA ar IShare ac anfon copi at y Tîm Gweithredu Mesurau at ddibenion monitro: [CRIA@wales.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@wales.gsi.gov.uk)



## Templed CRIA

<b>Teitl y Ddeddfwriaeth / Polisi:</b>	Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n ymwneud â Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon) (Cymru) 2018
<b>MA Cysylltiedig:</b>	MA(L)-KW-0326-17
<b>Rhif LF (os yn briodol):</b>	fel uchod
<b>Enw'r person sy'n gyfrifol am y CRIA:</b>	Rob Knowles
<b>Ysgrifennydd neu Weinidog sy'n gyfrifol:</b>	Kirsty Williams, AC. Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.
<b>Adran:</b>	Y Gyfarwyddiaeth Addysg
<b>Dyddiad cychwyn y CRIA:</b>	17 Mai 2017
<b>Dyddiad cwblhau'r CRIA:</b>	29 Mehefin 2017 (drafft)

**Dylid cwblhau'r adrannau canlynol yn ddigon manwl i alluogi'r darllenydd i ddeall yr asesiad i'r dim. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at y dystiolaeth sy'n sail i'r asesiad.**

**Dylech osgoi iaith dechnegol a jargon.**

**Darllenwch y canllawiau ar gyfer pob cam.**

### **Pryd ddylid cyhoeddi CRIA?**

Rhaid cyhoeddi pob dogfen CRIA sydd wedi'i llenwi am ddeddfwriaeth ar y tudalennau priodol ar wefan Llywodraeth Cymru, fel y cytunir â Thîm y We yn eich adran. Mae hyn hefyd yn wir am is-ddeddfwriaeth, er enghraifft rheoliadau a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol.

O ran pob darn arall o waith, rhestrir teitlau CRIA yn ein Cylchlythyr CRIA. Rhaid sicrhau bod y rhain ar gael ar gais. I wneud hyn, anfonwch eich CRIA i'n blwch post [CRIA@wales.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@wales.gsi.gov.uk)

Mae cyhoeddi'ch CRIA fel mater o drefn yn arfer da, ee. ar y cyd ag ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn yn ffordd o ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid a sicrhau proses dryloyw.



## Cam 1: Disgrifiwch y cynnig

Nod yr adran hon yw disgrifio'r cynnig yn gryno i ddarllenwydd nad yw'n gyfarwydd â'r cefndir. Dylech:

- Roi'r cynnig yn ei gyd-destun, gan gynnwys unrhyw gyfeiriad ato yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru.
- Esbonio'n gryno pam fod y cynnig yn cael ei gyflwyno, gan gyfeirio at unrhyw dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddangos bod angen y polisi neu'r ddeddfwriaeth (bydd gwybodaeth gryno a/neu ddolenni neu gyfeiriadau at y data sydd ar gael yn ddigon).
- Nodi amcanion sylfaenol y cynnig a'r mecanweithiau allweddol ar gyfer eu cyflawni (noder: caiff y canlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu sicrhau eu disgrifio'n fanylach yng Ngham 2).
- Pennu pwy y mae'r cynnig yn bwriadu ei helpu.
- Esbonio sut mae'r cynnig yn cysylltu â pholisïau neu ddeddfwriaeth, boed yn rhai cyfredol neu'n rhai y bwriedir eu cyflwyno.
- Esbonio, os yn briodol, sut y cefnogir y cynnig gan ddyraniad cyllidebol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) drafft hwn yn ymwneud â **Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018**. Cyhoeddir y CRIA law yn llaw ag ymgynghoriad ar gyfer y rheoliadau hyn i helpu i lywio datblygiad y gwaith. Bydd y CRIA yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw ddiwygiadau. Mae manylion llawn y cynnig i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori a'r RIA drafft.

Yn 2015, cyflwynodd yr Athro Donaldson ei adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus*, i Weinidogion Cymru. Gwnaeth yr adroddiad 68 o argymhellion i Weinidogion Cymru, i greu newid cadarnhaol ar gyfer addysg yng Nghymru. Derbyniwyd yr holl argymhellion yn llawn gan baratoi'r ffordd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae diwygio'r cwricwlwm yn rhan allweddol o'r Rhaglen Lywodraethu (*Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*). Mae nifer o'r argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio'n uniongyrchol at drefniadau atebolrwydd presennol ac yn cynnig gweledigaeth wahanol ar gyfer y dyfodol, gan gydnabod y bydd gan y trefniadau cwricwlwm ac asesu diwygiedig oblygiadau ar gyfer y dulliau presennol. Mae'r Athro Donaldson yn ei gwneud hi'n glir bod problemau fel gwahanol safonau marcio rhwng ysgolion yn golygu mai gwerth cyfyngedig sydd i ddata asesiadau athrawon ar gyfer cymharu ysgol un ysgol â'r llall.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gynlluniau i roi diwedd ar gyhoeddi data asesiadau athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (profion cenedlaethol), islaw'r lefel genedlaethol. Y newid hwn yw'r cam cyntaf yn y broses o fynd i'r afael ag argymhellion yr Athro Donaldson at ddibenion atebolrwydd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn glir na ddylai profion ac asesiadau athrawon fod yn rhan o unrhyw system atebolrwydd hynod arwyddocaol - ond yn hytrach, y dylid ei defnyddio er lles gorau disgyblion gan alluogi athrawon i addasu strategaethau addysgu i weddu i gynnydd dysgwyr unigol. Casglwyd tystiolaeth i gefnogi'r newid fel rhan o broses adolygu'r Athro Donaldson. Mae copi o'i adolygiad annibynnol, gan gynnwys dadansoddiadau o'r dystiolaeth a gafodd, ar gael ar-lein [yma](http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf) <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>. Prif fuddiolwyr y

cynnig yw plant ysgol, gan fod y cynnig yn ceisio gwella safonau dysgu yn y bôn.

Mae'r pwerau i Weinidogion Cymru gasglu, ac i ddiwygio'r dulliau o gasglu data ysgolion yn dod o dan adran 537 o Ddeddf Addysg 1996. Mae Adran 569 o'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau at y diben hwn. Mae yna amryw o effeithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol o ganlyniad i'r cynnig – rhoddir eu manylion yng ngham 2 isod. Nid oes unrhyw ddyraniad cyllidebol ar gyfer y cynnig.



## **Cam 2: Disgrifiwch ac esboniwch y canlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu sicrhau, gan ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc**

Ar gyfer yr adran hon, mae angen crynodeb o'r canlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu sicrhau, ac esboniad o pam y credir y bydd y cynnig yn arwain at y canlyniadau hynny. Hefyd, mae gofyn ichi dynnu sylw at y canlyniadau a fwriedir ar gyfer plant, neu ganlyniadau sy'n debygol o effeithio ar blant.

Yn yr adran hon, dylech:

- Ddisgrifio'r canlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu sicrhau.
- Pennu sut y bydd y canlyniadau hyn yn effeithio ar fywyd plant.
- Os yn berthnasol, esbonio sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (ee. plant sy'n byw mewn tlogi, plant ag anableddau ac ati).
- Pennu unrhyw effeithiau cadarnhaol y bydd y cynnig hwn yn eu cael ar fywydau plant, ac esbonio pam fod hyn yn debygol o ddigwydd yn sgil y cynnig.
- Pennu unrhyw effeithiau negyddol y bydd y cynnig yn ei gael ar fywydau plant.
- Esbonio sut caiff adnoddau eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o roi'r cynnig ar waith, gan gynnwys adnoddau cyllidebol os yn briodol.
- Cyfeirio at unrhyw dystiolaeth sydd wedi bod yn sail i'ch asesiad o effaith y cynnig ar fywydau plant (canlyniadau cadarnhaol a negyddol).
- Cyfeirio at unrhyw dystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr sydd wedi bod yn sail i'ch asesiad o effaith y cynnig ar fywydau plant.
- Ystyried a oes angen unrhyw dystiolaeth ychwanegol ar gyfer eich asesiad.

Bydd rhoi diwedd ar gyhoeddi data asesiadau athrawon islaw lefel genedlaethol yn golygu y bydd y datganiadau canlynol ar ddata i ysgolion / awdurdodau lleol yn dod i ben:

1. Setiau Data Craidd Cymru Gyfan sy'n cynnwys data cymharol asesiadau athrawon; a
2. Adroddiadau Cymharol Ysgol sy'n cynnwys data profion ac asesiadau athrawon.

Oherwydd hyn, mae angen newid y gyfraith er mwyn newid y polisi hwn, gan fod gofynion statudol ar rai pobl a sefydliadau, fel penaethiaid a chyrrff llywodraethu, ar hyn o bryd i ddefnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS) ac Adroddiadau Cymharol Ysgolion yn eu rolau. Mae rheoliadau newydd wedi'u drafftio i sicrhau y gall y newid polisi fynd rhagddo, ond yn gryno mae'n cynnwys:

- Dileu'r gofyniad am gynnwys adroddiadau cymharol ysgolion ar gyfer data profion ac asesiadau athrawon yn adroddiadau blynyddol llywodraethwyr ac adroddiadau penaethiaid i rieni.

- Dileu'r gofyniad i brospectws ysgol gynnwys adroddiadau cymharol ysgolion ar gyfer data profion ac asesiadau athrawon.
- Bydd yr hyfforddiant data ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yn cael ei ddiwygio. Cyhoeddir dogfen hyfforddi newydd ym mis Mai 2018.
- Ni fydd targedau perfformiad ysgolion yn dibynnu ar setiau data a data meincnodi mwyach.
- Ni fydd data asesu athrawon cymharol ysgolion, sy'n llywio hunanwerthuso gan ymarferwyr unigol ac ar lefel yr ysgol ar gyfer cynllunio, ar gael mwyach. Bydd y canllawiau ar gyfer Gwerthuso Perfformiad Staff a Chynlluniau Datblygu Ysgolion yn cael eu diwygio.

Mae gan y newid polisi effeithiau pellach, anneddfwriaethol. Yn bennaf, y rhain yw:

- Ar hyn o bryd mae Cam 1 y System Gategoreiddio Ysgolion Genedlaethol yn dibynnu ar ddata o'r setiau data. Felly, mae'r cynnig yn golygu y bydd y broses Cam 1 yn dod i ben mewn ysgolion cynradd. Ni fydd yn effeithio ar ysgolion uwchradd gan fod Cyfnod Allweddol 4 y tu allan i'r cwmpas. Fodd bynnag, mae dull o adolygu a gwella'r System Gategoreiddio Ysgolion Genedlaethol yn cael ei ystyried, gyda'r nod o gryfhau cam 2 a gwella'r broses.
- Mae gwefan Fy Ysgol Leol yn dibynnu ar wybodaeth o setiau data a'r System Gategoreiddio Ysgolion Genedlaethol. O ganlyniad, ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar y wefan unwaith y bydd y rheoliadau diwygio (Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) 2018) yn dod i rym. Bydd gan rieni fynediad at wybodaeth arall am ysgolion eu plant o hyd, megis prospectws yr ysgol gan gyrrff llywodraethu a phenaethiaid.
- Ni fydd Estyn yn gallu defnyddio'r setiau data a gwybodaeth gymharol mwyach i'w helpu i arolygu ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia. Wrth gwrs, bydd ganddynt fynediad at ddata ar gyfer pob sefydliad unigol y maent yn ei arolygu o hyd, yn ogystal â gwybodaeth gymharol ar lefel genedlaethol.

Dadleuodd yr Athro Donaldson fod angen gwella ffocws asesiadau athrawon. Mae'n dadlau y "gellir cael lefel uchel o ddilysrwydd mewn asesu gan athrawon gan fod modd cynnwys holl ystod y dysgu arfaethedig ynddo, ei gysylltu â'r gwaith cwrs a'i gynnwys ynddo, a'i gynnal yn rheolaidd neu'n barhaus hyd yn oed." Fodd bynnag, mae hefyd yn mynd ymlaen i ddweud "gall athrawon gymhwyso safonau marcio gwahanol, a gellir cael amrywiadau mewn amodau perfformiad a thuedd anymwybodol" fel y gall fod problemau o ran dibynadwyedd data o gymharu data gwahanol ysgolion. Bydd rhoi terfyn ar gyhoeddi data asesiadau athrawon ar lefel yr ysgol ac awdurdod lleol yn dod â defnyddio data o'r fath i ben, ac yn caniatáu defnydd parhaus o'i fwriad gwreiddiol - sef gwella safonau dysgu ar gyfer plant.

Y buddiolwyr a fwriedir yw plant ysgol ysgolion a gynhelir sy'n derbyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru, er bod Cyfnod Allweddol 4 y tu allan i gwmpas y newid. Ni fydd y newid yn effeithio ar is-grwpiau o blant (megis Anghenion Addysgol Arbennig neu'r rhai sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim) mewn ffordd wahanol. Gan fod y newidiadau yn ateb yr argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus i ryw raddau, bydd y newid yn un cadarnhaol ar gyfer plant; serch hynny, ychydig o newid uniongyrchol y byddant yn ei weld eu hunain o ran y ffordd y maent yn mynd ati i ddysgu mewn ysgolion. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc. Daw tystiolaeth i gefnogi'r cynnig o adolygiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr Athro Donaldson. Derbyniodd Donaldson ymatebion gan dros 300 o blant a phobl ifanc yn ei alwad am dystiolaeth a rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob ymateb. Fodd bynnag, mae'r CRIA hwn yn ddrafft i'w gyhoeddi law yn llaw ag ymgynghoriad - pe bai unrhyw faterion eraill yn codi nad ydynt wedi'u nodi hyd yma, caiff y CRIA ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

Mae'r newid polisi yn un gweinyddol, a bydd ganddo effeithiau gweithdrefnol ar y ffordd y mae

gweithwyr yn y sector addysg yn defnyddio'r data maen nhw'n ei gasglu o asesiadau athrawon. Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol law yn llaw â'r cynnig, a gwelwyd na fydd angen adnoddau ychwanegol o ganlyniad i hynny.

**Tystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen (os nad oes angen dystiolaeth ychwanegol, nodwch 'Ddim yn berthnasol'):**

Amherthnasol



### **Cam 3. Esboniwch sut mae eich darn o waith yn debygol effeithio ar hawliau plant**

Ar gyfer yr adran hon, mae angen asesiad, gyda beirniadaeth ar sail gwybodaeth, o effaith debygol y cynnig ar hawliau plant CCUHP. Peidiwch ag ystyried bod y canlyniadau a fwriedir (a nodwyd yng Ngham 3) yr un peth â'r effaith a ragwelir ar hawliau plant.

Bydd angen ystyried yn ofalus sut y mae'r canlyniadau a fwriedir yn ymwneud â hawliau plant, a pha effaith fyddant yn ei chael. Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau a ragwelir nad vdynt yn ganlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu sicrhau.

Dylech:

- Bennu pa [erthyglau CCUHP](#) sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig.
- Nodi a yw'r cynnig yn gwneud y mwyaf o hawliau plant CCUHP, yn eu cefnogi neu'n eu hyrwyddo; gan nodi hefyd sut y mae'r cynnig yn gwneud hynny. Wrth wneud hyn, dylid gwneud cysylltiadau rhwng y canlyniadau a bennir yng ngham 2 a'r hawliau yr ydych wedi'u pennu.
- Cofiwch, mae hyrwyddo hawliau plant yn cynnwys y canlynol: cynyddu mynediad plant at eu hawliau, neu at wasanaethau a/neu adnoddau sy'n rhoi mynediad at hawliau, neu alluogi plant i fanteisio ar eu hawliau a chymryd rhan. Dylech esbonio sut y mae'r cynnig yn cyflawni'r amcanion hyn - os ydynt, mewn gwirionedd, yn gwneud hynny.
- Esbonio unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant sy'n deillio o'r cynnig, gan gynnwys unrhyw leihad o ran yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi polisiâu neu raglenni eraill (os yn gymwys).
- Wrth feddwl am yr uchod, sicrhewch eich bod yn ystyried sut y bydd y cynnig yn effeithio ar hawliau gwahanol grwpiau o blant (ee. plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag anabledau ac ati).
- Cyfeirio at unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sydd wedi bod yn sail i'ch asesiad.
- Cyfeirio at unrhyw dystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr sydd wedi bod yn sail i'ch asesiad.

Yr erthyglau mwyaf perthnasol i'r cynnig hwn gan CCUHP yw:

#### ***Erthygl 17 - Mynediad at wybodaeth***

Dywed Erthygl 17 bod gan bob plentyn yr hawl i wybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei ddeall. Mae'r gyfraith bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu hysgolion mewn prosectysau i helpu plant, pobl ifanc a'u rhieni i ddeall pa mor dda y mae eu hysgolion yn perfformio. Fodd bynnag, bydd y cynnig yn golygu na fydd data'n cael ei gynnwys mwyach i gymharu ysgolion ag ysgolion tebyg eraill o'r un math. Bydd mynediad at wybodaeth sy'n

caniatáu i'r rhai sydd â diddordeb i gymharu gwybodaeth yr ysgol ar lefel genedlaethol yn parhau, ac wrth gwrs bydd dysgwyr a rhieni'n parhau i gael mynediad at ddata sy'n gysylltiedig â'u hysgolion eu hunain. Yn yr un modd, ni fydd data asesiadau athrawon sy'n cymharu ysgolion islaw lefel genedlaethol yn cael ei gyhoeddi ar [Fy Ysgol Leol](#) mwyach

Er y gall y newid hwn ymddangos fel un sy'n cyfyngu, dadleuir bod mynediad at ddata cymharol asesiadau athrawon yn aneffeithiol pan gaiff ei gymhwysu i godi safonau dysgu, gan fod amheuaeth ynghylch dibynadwyedd cymharu data rhwng ysgolion. At hynny, bydd hawliau Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i fod yn berthnasol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu, trwy ymgynghori a dulliau eraill, gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth a fydd yn parhau i fod ar gael iddynt.

#### ***Erthygl 28 - Yr hawl i addysg***

Dywed yr erthygl hon bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i addysg. Dadleuir yn Dyfodol Llwyddiannus a chan Lywodraeth Cymru y bydd y newid i roi'r gorau i gyhoeddi data asesiadau athrawon islaw'r lefel genedlaethol yn gwella'r safonau addysgol a gynigir i ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir.

#### ***Erthygl 29 - Nodau addysg***

Dywed yr erthygl bod yn rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Trwy symud pwyslais y sail ar gyfer asesiadau athrawon oddi wrth gymharu'r ysgol ac yn ôl at asesiad ar gyfer dysgu, dylai'r cynnig fynd ymhellach i ddatblygu doniau a galluoedd plant.

Ym mhob un o'r uchod, deallir na fydd y newidiadau yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol.

#### **Tystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen (os nad oes angen tystiolaeth ychwanegol, nodwch 'Ddim yn berthnasol'):**

Amherthnasol



### **Cam 4: Crynhoad o'ch asesiad yng Nghamau 2 a 3**

Nod yr adran hon yw pwysleisio'r prif bwyntiau o'ch asesiad yng Nghamau 2 and 3, er mwyn tynnu sylw'r Ysgrifennydd neu'r Gweinidog atynt. Peidiwch ag ailadrodd yr asesiadau'n llawn, fodd bynnag.

#### **PWYSIG:**

**Nid** yw'r adran hon yn gofyn ichi gadarnhau a yw'r cynnig yn cydymffurfio ag Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae'r CRIA hwn yn cyfrannu at gydymffurfiaeth gan y Gweinidogion ag Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'n rhoi'r wybodaeth i'r Ysgrifennydd Cabinet / Gweinidog sydd ei angen arno/arni er mwyn cyflawni'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Dylech:

- Bwysleisio pwyntiau allweddol yn gryno.
- Tynnu sylw at unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen (nad ydych wedi gallu ei chael cyn cwblhau'r CRIA).
- Tynnu sylw at unrhyw leihad sylweddol o ran adnoddau sydd ar gael i gefnogi polisïau neu raglenni eraill.

**Os bydd UNRHYW effaith negyddol ar hawliau plant yn deillio o'r cynnig hwn, dylech dynnu sylw'r Ysgrifennydd Cabinet / Gweinidog at hynny. Dylech wneud hyn hyd yn oed os gwneir yn iawn am yr effaith negyddol dan sylw gan effeithiau cadarnhaol eraill.**

Yn y pen draw, dywedir y bydd y cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi data profion ac asesiadau athrawon islaw'r lefel genedlaethol yn gwella addysg plant a phobl ifanc sy'n astudio Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn ysgolion a gynhelir ar hyn o bryd. Mae yna dair erthygl o CCUHP sy'n berthnasol i'r cynnig. Mae dwy'n ymwneud ag addysg, ac mae'r cynnig yn gwneud llawer i hyrwyddo'r hawliau hyn. Mae'r drydedd yn ymwneud â mynediad at wybodaeth; er y gellid dadlau bod y wybodaeth sydd ar gael yn cael ei chyfyngu gan y cynnig, mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn o fwy o fudd i blant a phobl ifanc yn gyffredinol.



## Trefniadau Monitro ac Adolygu

Person neu adran sy'n gyfrifol am fonitro canlyniadau'r cynnig:

*Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion*

Disgrifiad cryno o drefniadau newydd neu gyfredol ar gyfer monitro canlyniadau'r cynnig (ee. data sydd ar gael, dangosyddion).

Mae'r adran yn gyfrifol am gasglu a lledaenu gwybodaeth am ysgolion, a gwella ysgolion yn seiliedig ar y defnydd o wybodaeth o'r fath. Mae yna lawer o bolisïau yn ymwneud â defnyddio data ysgolion, a bydd canllawiau'n cael eu diwygio fel bo'r angen i adlewyrchu'r newidiadau a wneir yn y cynnig.

Sut eir ati i weld a yw'r cynnig wedi cael yr effeithiau a fwriadwyd, fel y nodir yng Ngham 3?

Y newid hwn yw'r cam cyntaf yn y broses o symud tuag at argymhellion adroddiad Dyfodol Llwyddiannus sy'n darparu glasbrint ar gyfer cwricwlwm cwbl newydd gyda threfniadau asesu ac atebolrwydd diwygiedig yng Nghymru. Mae'r cynnig yn caniatáu cyfnod ar gyfer gweithredu tra bo trefniadau atebolrwydd y dyfodol yn datblygu.

Dyddiad adolygu'r CRIA:

*Yn dilyn yr ymgynghoriad – 30 Ionawr 2018*



Person neu adran sy'n gyfrifol am adolygu'r CRIA:

*Cangen Ddeddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm*